**PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO**

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 15 Mawrth, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd B.E. Brooks (Cadeirydd); Cynghorydd S. Sivagnanam (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr P. Drake, V.P. Driscoll, G. John, M.J.G. Morgan, A. Robertson a S.T. Wiliam.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio) a E. Williams (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio)

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd V.J. Bailey.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Chwefror, 2022 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. PROSIECT SERO – DIWEDDARIAD, ADNODDAU, TYSTIOLAETH AC ADRODD (CYF) -

ARGYMHELLWYD – Cymeradwyo cynnwys yr adroddiad diweddaru.

Y rheswm dros yr argymhelliad

Mewn perthynas â chynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. MONITRO REFENIW A CHYFALAF 1 EBRILL I 31 IONAWR, 2022 (CAT) -

ARGYMHELLWYD – NODI'R sefyllfa o ran cyllidebau refeniw a chyfalaf 2021/22.

Y rheswm dros yr argymhelliad

Mewn perthynas â chynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 3 2021/22 (PW) - .

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI’R canlyniadau perfformiad a’r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22 yn unol ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) NODI’r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd lle mae tanberfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yng nghylch gwaith y Pwyllgor.

(3) NODI’R cynnydd sy'n cael ei wneud trwy Strategaeth Adfer a Chynlluniau Adfer Cyfarwyddiaethau’r Cyngor mewn ymateb i bandemig parhaus y coronafeirws.

Y rheswm dros yr argymhelliad

(1-3) Mewn perthynas â chynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 7. CYNLLUNIAU GWASANAETH A PHENNU TARGEDAU I GYFLAWNI CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL 2022/23 (PW)

ARGYMHELLWYD –

(1) CYMERADWYO’R Cynlluniau Gwasanaeth (sydd wedi'u hatodi yn Atodiad A i'r adroddiad) a'r holl weithgareddau arfaethedig fel y maent yn ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor hwn (fel y dangosir yn Atodiad C i'r adroddiad).

(2) CYMERADWYO’R targedau arfaethedig ar gyfer gwella gwasanaethau ar gyfer 2022/2023 (sydd wedi'u hatodi yn Atodiad B i'r adroddiad) sy'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor hwn.

Y rhesymau dros yr argymhellion

(1) Sicrhau bod y Cynlluniau Gwasanaeth sy'n cyd-fynd â chylch gwaith y Pwyllgor hwn yn gywir, yn gyfredol ac yn berthnasol a'u bod yn dod yn brif ddogfen ar gyfer monitro a mesur perfformiad yn erbyn Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cynllun Corfforaethol yn ystod 2022/2023.

(2) Sicrhau bod Fframwaith Mesur Perfformiad Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn nodi set berthnasol o fesurau a thargedau perfformiad y gellir monitro a mesur y Cynllun Cyflawni Blynyddol yn eu herbyn yn ystod 2022/2023.